

# RHAGLEN GYMORTH MATHEMATEG BELLACH CYMRU



## CYLCHLYTHYR

Hydref 2016

Rhifyn 6

### Cynnydd yn y nifer o ferched sy'n cymryd Mathemateg Bellach yng Nghymru

Mae [canlyniadau](#) Mathemateg Bellach lefel A yn achos dathlu yng Nghymru unwaith eto ac mae llawer o fyfyrwyr o Gymru yn defnyddio eu Mathemateg Bellach Safon Uwch i'w galluogi i astudio ar gyfer gradd STEM. Eleni, gwelwyd cynnydd trawiadol o 20% yn nifer y merched yng Nghymru sy'n cymryd lefel A llawn mewn Mathemateg bellach o'i gymharu â 2015


Mae cyfran y merched sydd â chymwysterau Mathemateg Bellach yn hanesyddol yn parhau i fod yn isel ar draws y DU fel y gwelir yn y graff isod. Mae'r cynnydd eleni yng Nghymru yn 34% trawiadol o'r garfan gyfan. Mae nifer y merched sy'n cymryd Mathemateg Bellach Lefel A llawn yng Nghymru wedi cynyddu 86% ers 2009.

Dywedodd yr Athro Julie Williams CBE, Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru, *Rwy'n gefnogol o ragor o ferched yn cymryd Mathemateg Bellach Safon Uwch. Mae llawer o gyfleoedd ar gyfer gyrfaedd diddorol a gwerth chweil drwy ddefnyddio mathemateg ac mewn gwirionedd mae prinder o bobl â'r wybodaeth a'r sgil hwn. Mae mathemateg yn ddewis gyrfa gwych."*

I ddarllen y datganiad i'r wasg lawn ewch i

<http://www.furthermaths.org.uk/wales-news#cymraeg>

**Graff 1.** Cyfran o fyfyrwyr benywaidd Mathemateg Bellach Safon Uwch yng Nghymru a'r DU ers 2009




## Cynadleddau Blwyddyn 10 Prifysgol Abertawe, Coleg Sir Benfro a Phrifysgol De Cymru

Cafwyd presenoldeb gwych i gynadleddau Blwyddyn 10 Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach a gynhaliwyd ym mis Mehefin/Gorffennaf. Mynychodd dros 380 o fyfyrwyr y tair cynhadledd o 25 o ysgolion o bob rhan o Dde Cymru



Wedi eu rhannu'n grwpiau cymerodd y myfyrwyr ran mewn 2 weithdy a mynychu sgwrs derfynol. Nod y cynhadleddau yw dangos i fyfyrwyr y gwahanol ffyrdd y mae Mathemateg yn cael ei gymhwyso a dangos y llu o yrfaoedd y gall Mathemateg arwain atynt. Roedd adborth myfyrwyr ar gyfer y diwrnod yn eithriadol o gadarnhaol; "Roedd yn ddiwrnod ardderchog llawn gwybodaeth", "Agorodd fy llygaid i fathemateg a fy annog i'w gymryd yn y dyfodol." Rhoddodd yr athrawon adborth cadarnhaol hefyd gan farnu bod y gynhadledd wedi cael ei osod ar y lefel gywir, "lefel dda, hygyrch ond yn heriol".



## Newyddion Da Cyllid Pellach

Derbyniodd FMSP Cymru gyllid pellach gan Adran Addysg a Sgiliau i barhau i gynnis cymorth i ysgolion a cholegau yng Nghymru yn ystod 2016-18.

Rydym yn falch iawn i ddweud, o'r flwyddyn academaidd nesaf, byddwn yn gweithredu ym mhob rhanbarth yng Nghymru.

### Astudiaeth Achos



Cwblhaodd Helen Hayes y DPP Addysg FP1 yn Hyderus yng Ngogledd Cymru "Mae Mathemateg Bellach wedi cael ei gyflwyno eleni ar lefel UG a bydd yn symud ymlaen i Lefel A y flwyddyn nesaf"  
**Darllenwch ragor**  
[http://](http://www.furthermaths.org.uk/wales-case-)

[www.furthermaths.org.uk/wales-case-](http://www.furthermaths.org.uk/wales-case-)

## DIGWYDDIADAU

Am ragor o wybodaeth am unrhyw un o'r digwyddiadau yma ewch i <http://www.furthermaths.org.uk/wales>  
Neu gysylltu tîm FMSP: [infoFMSPWales@wimcs.ac.uk](mailto:infoFMSPWales@wimcs.ac.uk)


## Mathemateg yw eich Dyfodol

Cynhadledd Undydd i fyfyrwyr Mathemateg Blwyddyn 11  
15fed o Fedi 2016 – Prifysgol Bangor  
09.15 - 14.00 Bydd lleoedd yn cael eu dyrannu ar sail y cyntaf i'r felin.  
I wneud cais, ewch i [http://www.furthermaths.org.uk/Wales\\_enrichment](http://www.furthermaths.org.uk/Wales_enrichment)



## Digwyddiadau Myfyrwyr yn mis Hydref

[http://www.furthermaths.org.uk/Wales\\_enrichment](http://www.furthermaths.org.uk/Wales_enrichment)



### STEP II and III—Blwyddyn 13

Prifysgol Abertawe—Dechrau yn Hydref

"Rwy wedi cael mwy o ddyfner o ddealltwriaeth o'r mathemateg ac wedi gwella fy ngallu i ddatrys problemau. Os na fyddai'r cwrs ar gael byddwn yn llai tebygol o fod wedi cwrdd â fy gynnig Prifysgol"

### Datrys Problemau Mathemateg Anarferol - Blwyddyn 12

Lleoliadau ar draws y De Orllewin (gweler y wefan am fwy o wybodaeth)  
Mae'r dosbarth i fyfyrwyr sy'n paratoi ar gyfer MAT ac sy'n gwneud cais i ddarllen pynciau STEM ym Mhrifysgolion Grŵp Russell ac i'r rhai sydd



### Addysgu

Anfonwyd cynigion hyfforddiant FMSP i bob ysgol ym mis Mai ac rydym wedi cael ymateb cadarnhaol dros ben. Hoffai FMSP Cymru atgoffa rhai sydd â diddordeb mewn hyfforddiant i anfon eu ffurflenni cais os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyfforddiant cysylltwch â Beth Eakins ar [b.eakins@swansea.ac.uk](mailto:b.eakins@swansea.ac.uk)

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus i Athrawon

Gall FMSP helpu gwella sgiliau athrawon mewn unrhyw fodiwl Mathemateg Bellach. Os oes gennych ddiddordeb mewn derbyn hyfforddiant DPP neu os oes angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni ar y cyfeiriad/rhif e-bost isod

### Cyrsiau ar gael y tymor hwn:

#### Addysgu Pynciau Uwch mewn Mathemateg Bur Bellach

Hydref 2016—Mawrth 2017

Lleoliad—Prifysgol Bangor

Mae'r cwrs yn cwmpasu FP2 and FP3—dyddiad cau ar gyfer ceisiadau 1/10/16



#### Addysgu FP1 yn Hyderus

Hydref 2016—Mawrth 2017

Lleoliad—Prifysgolion Abertawe a Chaerdydd

Mae'r cwrs hwn yn ddelfrydodol ar gyfer athrawon nad ydynt wedi addysgu pynciau

FP1 neu ar gyfer athrawon sy'n dymuno adnewyddu eu gwybodaeth am y pwnc—Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau 7/10/16



#### Gweithdai Pontio-ar gyfer manyleby newydd Mathemateg Bellach Safon Uwch

Trosglwyddo o FP1 i Uned 1—gweithdy un diwrnod sy'n cwmpasu newidiadau i'r fanyleb—

Prifysgol Abertawe—Dydd Sadwrn 5ed o Dachwedd

Prifysgol Bangor—Dydd Sadwrn 10fed o Ragfyr

Trosglwyddo o FP2/3 i Uned 4—gweithdy un diwrnod sy'n adolygu'r newidiadau i'r fanyleb— Dydd Sadwrn 5ed Rhagfyr

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r holl DPP a chymorth i athrawon ewch i: [http://www.furthermaths.org.uk/Wales\\_CPD](http://www.furthermaths.org.uk/Wales_CPD)